Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

**I'w lenwi gan y llys**

Enw'r llys

Dyddiad cychwyn

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
| --- | --- | --- |
| | | |

Rhif yr achos

DA1

# Cais am Orchymyn Diogelu Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)

Rhan 3 Deddf Cam-drin Domestig 2021

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud cais am orchymyn diogelu rhag cam-drin domestig i ddiogelu eich hun rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig.

Gall y gorchymyn hwn atal rhywun rhag dod i'ch cartref neu yn agos at eich cartref neu benderfynu pwy all aros yn eich cartref neu ddychwelyd i'ch cartref. Gall hefyd orchymyn bod yr unigolyn y mae'r gorchymyn yn ei erbyn yn gwneud rhywbeth fel mynychu rhaglen newid ymddygiad neu'n gwisgo tag electronig, i wirio eu bod yn cadw at amodau'r gorchymyn.

**Nid oes rhaid talu ffi'r llys i wneud cais.**

Gallwch ond wneud cais am DAPO mewn rhai llysoedd teulu, a rhaid i'r unigolyn rydych yn gwneud cais am orchymyn yn ei erbyn hefyd fod yn byw yn yr ardal honno - ewch i www.gov.uk/guidance/apply-for-a-domestic-abuse-protection-order-in-a-family-court.cy i weld rhestr o lysoedd teulu sy'n delio â cheisiadau DAPO. Os ydych chi eisiau gwneud cais i lys sydd y tu allan i'ch ardal chi, yna mae'n bosib y bydd rhaid i chi deithio i'r llys hwnnw i fynychu gwrandawiad wyneb yn wyneb.

## Gall RCJ Advice eich helpu i wneud cais am orchymyn

Mae RCJ Advice (Cyngor ar Bopeth y Llysoedd Barn Brenhinol) yn darparu gwasanaethau cam-drin domestig i'ch helpu gyda'r cais hwn. Byddant yn eich rhoi chi mewn cysylltiad â chynghorwyr cyfreithiol i drafod eich opsiynau neu efallai y byddant yn gallu eich helpu eu hunain. Ewch i https://supportnav.org.uk/ i ofyn am gymorth gyda'ch cais.

## Cefnogaeth os ydych chi'n profi cam-drin domestig

Ewch i www.gov.uk/report-domestic-abuse i weld rhestr o sefydliadau sy'n gallu rhoi cymorth a chyngor ar gam-drin domestig.

Ffoniwch 999 os yw'n argyfwng neu os ydych mewn perygl dybryd.



©Hawlfraint y Goron 2024

## Gwneud cais heb roi gwybod i'r atebydd

Mewn amgylchiadau eithriadol, megis pan fydd eich diogelwch mewn perygl dybryd, gall y llys wneud gorchymyn heb ddweud wrth yr atebydd (yr unigolyn y mae'r gorchymyn yn ei erbyn). Gelwir hyn yn orchymyn 'heb rybudd'. Mae'n golygu y gall y llys ystyried eich cais heb i'r atebydd fod yn bresennol. Fe gynhelir gwrandawiad arall yn hwyrach ymlaen ac fe anfonir hysbysiad i fod yn bresennol at yr atebydd. Gallwch wneud cais am hyn yn adran 1 y ffurflen hon. Rhaid i chi ddweud wrth y llys pam eich bod chi'n gwneud cais am orchymyn heb rybudd a beth ydych chi'n credu allai ddigwydd os na fydd y llys yn ei ganiatáu.

## Os ydych chi eisiau cadw eich gwybodaeth yn gyfrinachol

Os nad ydych chi eisiau i'ch manylion cyswllt chi neu fanylion cyswllt eich plentyn gael eu rhannu gyda'r atebydd, peidiwch â'u nodi yn unrhyw le ar y ffurflen, hyd yn oed pan ofynnir i chi wneud hynny. Yn hytrach, dylech lenwi ffurflen manylion cyswllt cyfrinachol **(C8)** a'i hanfon gyda'r cais hwn. Ewch i GOV.UK a chwiliwch am ffurflen **C8 – Manylion cyswllt cyfrinachol.**

**Peidiwch â rhoi eich manylion cyswllt ar unrhyw ddogfen arall y byddwch yn ei hanfon i'r llys, er enghraifft tystiolaeth ategol.**

Os ydych chi'n byw mewn lloches, mae'n hynod o bwysig eich bod chi'n cadw manylion eich cyfeiriad yn gyfrinachol a'ch bod ond yn nodi'r manylion ar ffurflen **C8 - Manylion cyswllt cyfrinachol.**

**Ffurflen C8**
https://www.gov.uk/government/publications/form-c8-confidential-contact-details-family-procedure-rules-2010-rule-291.cy

## Cyn i chi ddechrau

Ydych chi'n gwneud cais ar ran rhywun arall?

☐ Ydw – mae'n rhaid i chi hefyd lenwi ffurflen **DA2** (Cais am ganiatâd i wneud cais am DAPO), a llenwi'r ffurflen hon fel mai chi yw'r unigolyn sy'n gwneud cais. Mae'n rhaid i chi hefyd roi eich manylion chi yn **Adran 2**.

☐ Nac ydw – parhewch i lenwi gweddill y ffurflen hon

Faint yw eich oed chi?

☐ **18 mlwydd oed neu hŷn.** Gallwch barhau i wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen hon.

☐ **16 i 18 mlwydd oed.** Efallai yr hoffech ofyn i rywun sydd dros 18 oed eich helpu i wneud cais, megis rhiant.

**Noder: CourtNav –** Os byddwch yn penderfynu defnyddio CourtNav, ni fydd angen i chi lenwi'r ffurflen hon neu ddarparu datganiad i gefnogi eich cais – bydd CourtNav yn gwneud hynny ar eich rhan. Ewch i https://injunction.courtnav.org.uk/ i gofrestru a gwneud cais.

**Os ydych chi eisiau gwneud cais ar ran rhywun arall,** bydd angen i chi ofyn i'r llys am ganiatâd i wneud y cais hwn. Efallai y bydd hyn yn berthnasol i chi os ydych chi'n ffrind neu'n perthyn i'r unigolyn sydd angen ei ddiogelu, neu os ydych chi'n gweithio i sefydliad sy'n gwneud cais ar eu rhan (ac eithrio cynrychiolydd cyfreithiol).

# 1. Eich sefyllfa chi

**Gorchymyn heb rybudd**

Pan fydd y llys yn ystyried ei fod yn gyfiawn ac yn gyfleus i wneud hynny, gall wneud gorchymyn diogelu rhag cam-drin domestig er nad yw'r atebydd wedi cael rhybudd ymlaen llaw am yr achos, fel y byddai rhaid gwneud fel arall yn unol â rheolau'r llys.

Darllenwch y cyfarwyddyd sydd ar ochr dde y dudalen hon i'ch helpu i benderfynu p'un a allai hyn fod yn opsiwn i chi

**1.1** Ydych chi eisiau gwneud cais am y gorchymyn heb roi rhybudd i'r atebydd?

☐ Ydw

☐ Nac ydw. **Ewch i gwestiwn 1.5.**

**1.2** Pam ydych chi eisiau gwneud cais heb roi rhybudd i'r atebydd? Gallwch ddewis mwy nag un rheswm – gweler y nodyn cyfarwyddyd am gymorth.

☐ **a)** mae yna risg o niwed sylweddol i mi os na wneir y gorchymyn ar unwaith

☐ **b)** mae'n debygol y byddaf yn cael fy atal neu fy rhwystro rhag parhau â'r cais os na wneir gorchymyn ar unwaith

☐ **c)** rwy'n credu bod yr atebydd yn ymwybodol o'r achos ond mae'n fwriadol yn osgoi bod ar gael ar gyfer cyflwyno'r gorchymyn, a bydd yr oedi hwn yn fy rhoi dan anfantais ddifrifol

## Hysbysu'r atebydd am y cais a'r gorchymyn

Os ydych chi'n gwneud cais dros eich hun, rhaid i chi beidio â chyflwyno'r cais neu'r gorchymyn eich hun. Os nad oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, bydd swyddog y llys yn eu cyflwyno ar eich rhan am ddim, ond mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen D89 i'w helpu i ddod o hyd i'r atebydd. Ewch i GOV.UK a chwiliwch am ffurflen 'D89' i lenwi'r ffurflen. Dylech gynnwys y ffurflen hon gyda'ch cais.

Gan amlaf bydd y gorchymyn yn cael ei ddanfon i'r atebydd â llaw. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y llys yn penderfynu y dylid cyflwyno'r gorchymyn mewn rhyw ffordd arall, megis drwy e-bost neu neges testun. Gelwir hyn yn wasanaeth 'dirprwyol' neu'n wasanaeth 'amgen.

Ni all y llys neu'r heddlu weithredu os bydd yr atebydd yn gwneud rhywbeth y mae'r gorchymyn yn nodi na ddylai wneud, neu'n methu â gwneud rhywbeth y mae'r gorchymyn yn dweud bod rhaid iddynt wneud, hyd nes y bydd wedi cael y gorchymyn.

**Nodyn 1.1 ac 1.2:** Mae hyn yn golygu y gellir gwneud y gorchymyn heb i'r atebydd wybod amdano ymlaen llaw.

Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y mae hyn yn opsiwn:

- rydych chi'n credu bod yna risg y gall yr atebydd geisio eich niweidio os na wneir gorchymyn ar unwaith. Mae niwed yn golygu bod ymddygiad yr atebydd yn ymosodol – gweler Adran 7 am enghreifftiau o fathau o niwed **(a)**
- rydych chi'n teimlo fel y byddech yn cael eich atal neu'n cael eich perswadio i beidio â gwneud cais os na wneir gorchymyn ar unwaith **(b)**
- rydych chi'n credu y byddai'r atebydd yn ceisio osgoi achos llys, gan gynnwys cael ei gyflwyno gyda'r gorchymyn (gweler dros y dudalen) – a gallai unrhyw oedi a achosir gan hyn effeithio ar eich cais neu eich iechyd, eich diogelwch neu eich lles chi neu eich plentyn **(c)**

**1.3** Pam ydych chi'n credu y gallai un neu fwy o'r rhesymau rydych wedi'u dewis ar gyfer **cwestiwn 1.2** ddigwydd?

**Nodyn 1.3:** Disgrifiwch cystal ag y gallwch pam y gallai'r pethau hyn ddigwydd. Gallai hyn gynnwys pethau y mae'r atebydd wedi dweud neu wneud yn y gorffennol.

**1.4** Cyn belled ag y gwyddoch, a oes yna unrhyw amodau mechnïaeth sy'n atal yr atebydd rhag cysylltu â chi neu ddod yn agos atoch chi?

☐ Oes

☐ Nac oes. **Ewch i gwestiwn 1.6.**

**1.5** Pa bryd y mae'r amodau mechnïaeth yn dod i ben?

| Diwrnod | | Mis | | Blwyddyn | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

**Nodyn 1.5:** Os nad ydych chi'n gwybod yr union ddyddiad, rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch.

**1.6** Cyn belled ag y gwyddoch, a oes yna orchymyn llys, gwaharddeb, hysbysiad diogelu neu orchymyn diogelu arall eisoes mewn lle? Neu a oes cais wedi'i wneud am orchymyn llys neu waharddeb sydd wedi'i wrthod gan y llys?

☐ Oes. Rhowch fanylion ac atodwch gopi i'r ffurflen hon.

☐ Nac oes

**Nodyn 1.6:** Gallai hyn gynnwys Hysbysiad Diogelu rhag Trais Domestig neu Hysbysiad Diogelu rhag Cam-drin Domestig arall a Gorchymyn Diogelu Rhag Trais Domestig neu Orchymyn Diogelu Rhag Cam-drin Domestig, gorchymyn rhag molestu neu orchymyn anheddu, gorchymyn atal neu waharddeb aflonyddu. Dylech hefyd gynnwys ceisiadau blaenorol am orchymyn llys neu waharddeb nad oedd yn llwyddiannus, os ydych chi'n gwybod amdanynt.

**1.7** A oes yna unrhyw beth arall am eich sefyllfa yr hoffech i'r llys wybod amdano neu ei ystyried?

**Nodyn 1.7:** Mae'n bwysig bod y llys yn cael gwybod am unrhyw nodweddion arbennig sy'n berthnasol i chi, yr atebydd neu blentyn yn y teulu. Gallai hyn gynnwys unrhyw salwch neu anableddau sydd gan rywun, neu os ydych chi'n feichiog.

Gallwch roi mwy o wybodaeth am eich sefyllfa yn eich datganiad tyst.

## 2. Manylion yr unigolyn sydd i'w ddiogelu gan y gorchymyn

**Nodyn 2:** Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am yr unigolyn sydd i'w ddiogelu. Os ydych chi'n gwneud cais ar gyfer chi eich hun, llenwch yr adran hon. Os ydych chi'n gwneud cais ar ran rhywun arall, rhowch fanylion yr unigolyn sydd i'w ddiogelu yma ynghyd â llenwi Adran 3 (manylion yr unigolyn sy'n gwneud cais ar ran yr unigolyn sydd i'w ddiogelu).

**2.1** Eich enw llawn

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

**2.2** Unrhyw enwau eraill rydych wedi cael eich adnabod wrthynt

**2.3** Eich dyddiad geni

Diwrnod Mis Blwyddyn

**Nodyn 2.4:** Os nad ydych chi eisiau dadlennu eich manylion cyswllt dylech adael cwestiwn 2.5 yn wag a llenwi ffurflen C8 Manylion Cyswllt Cyfrinachol.

**2.4** A ellir rhannu eich manylion cyswllt gyda'r atebydd?

☐ Gellir

☐ Na ellir. Llenwch ffurflen **C8** ar wahân gyda'ch manylion. **Peidiwch ag ateb cwestiynau 2.5 i 2.9**. Rhowch yr wybodaeth hon yn ffurflen **C8 - Manylion cyswllt cyfrinachol.**

**Nodyn 2.5:** Bydd y llys yn anfon eich dogfennau i'r cyfeiriad a roddir gennych.

Os ydych chi'n credu fod posibilrwydd y byddai'r atebydd yn agor eich post neu'n ei guddio oddi wrthych, rhowch gyfeiriad gwahanol i ni ar gyfer anfon eich dogfennau atoch. Ysgrifennwch y cais ar ddalen ar wahân a'i gynnwys gyda'r cais hwn.

Os byddwch yn darparu cyfeiriad arall, sicrhewch ei fod yn gyfeiriad rhywun rydych chi'n ymddiried ynddynt ac y gallant gysylltu â chi. Os ydych chi'n cadw eich manylion cyswllt yn gyfrinachol yna dylech gynnwys eich cyfeiriad chi a'r cyfeiriad gwahanol ar y ffurflen C8.

**2.5** Eich cyfeiriad cyfredol llawn

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**2.6** Eich rhif ffôn

**2.7** Eich cyfeiriad e-bost

**2.8** Sut fyddai'n well gennych i'r llys gysylltu â chi?

☐ Ffôn

☐ E-bost

**2.9** Cyfarwyddiadau cysylltu, gan gynnwys amseroedd diogel i gysylltu

**2.10** A oes gennych chi gynrychiolydd cyfreithiol?

☐ Oes

☐ Nac oes. **Ewch i Adran 3**

**2.11** Enw eich cynrychiolydd cyfreithiol

**2.12** Enw cwmni eich cynrychiolydd cyfreithiol

**Nodyn 2.8:** Peidiwch â dewis ffôn fel eich dull cyswllt dewisol os nad yw'n ddiogel i chi ateb galwadau. Os oes amser diogel i ni ffonio, gadewch i ni wybod pryd y mae hynny drwy roi cyfarwyddyd cysylltu (cwestiwn 2.9).

Efallai y bydd y llys yn defnyddio rhif wedi'i gadw'n ôl i gysylltu â chi.

Os ydych chi'n poeni bod gan yr atebydd fynediad at eich cyfrif e-bost, crëwch gyfrif e-bost newydd a rhowch y cyfeiriad hwnnw yma. Hwn fydd y cyfeiriad e-bost a ddefnyddir ar gyfer eich cais i'r llys.

**Nodyn 2.9:** Eich amseroedd diogel i gysylltu fydd yr amseroedd hynny pan na fyddwch gyda'r atebydd. Rhowch oriau rhwng 9am a 5pm.

**2.13** Cyfeiriad cwmni eich cynrychiolydd cyfreithiol

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

Rhif DX (os yw'n hysbys)

**2.14** Rhif ffôn eich cynrychiolydd cyfreithiol

**2.15** Cyfeiriad e-bost eich cynrychiolydd cyfreithiol

**2.16** Cyfeirnod eich cynrychiolydd cyfreithiol

# 3. Manylion yr unigolyn sy'n gwneud cais ar ran yr unigolyn sydd i'w ddiogelu

**3.1** Ydych chi'n gwneud cais ar ran yr unigolyn sydd i'w ddiogelu?

☐ Ydw. **Ewch i gwestiwn 3.2**

☐ Nac ydw. **Ewch i Adran 4**

**3.2** Eich enw

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

**3.3** Safle yn y sefydliad a natur y sefydliad (os yw'n berthnasol)

**3.4** A ellir rhannu eich manylion cyswllt gyda'r atebydd?

☐ Gellir

☐ Na ellir. Llenwch ffurflen **C8** ar wahân gyda'ch manylion. **Peidiwch ag ateb cwestiynau 3.5, 3.6 a 3.7.** Rhowch yr wybodaeth hon ar ffurflen **C8 – Manylion cyswllt cyfrinachol.**

**Ffurflen C8**
https://www.gov.uk/government/publications/form-c8-confidential-contact-details-family-procedure-rules-2010-rule-291.cy

**3.5** Eich cyfeiriad

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**3.6** Eich rhif ffôn

**3.7** Eich cyfeiriad e-bost

**3.8** A oes gennych chi gynrychiolydd cyfreithiol?

☐ Oes

☐ Nac oes. **Ewch i gwestiwn 3.13**

**3.9** Manylion eich cynrychiolydd cyfreithiol

Enw'r cynrychiolydd cyfreithiol

Enw'r cwmni

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**3.10** Eu rhif ffôn

**3.11** Eu cyfeiriad e-bost

**3.12** Cyfeirnod (os yn berthnasol)

**3.13** Beth yw barn yr unigolyn sydd i'w ddiogelu am y cais hwn?

**Nodyn 3.13:** Bydd hyn yn helpu'r llys i ystyried p'un a yw'r unigolyn sydd i'w ddiogelu yn cefnogi'r cais rydych chi'n ei wneud ar ei ran. Weithiau gall y llys dal wneud gorchymyn hyd yn oed os yw'r unigolyn sydd i'w ddiogelu yn gwrthwynebu'r cais, os oes angen ei wneud i'w ddiogelu.

# 4. Manylion yr atebydd

**Nodyn 4:** Yr 'atebydd' yw'r unigolyn rydych chi'n gofyn i'r llys wneud y gorchymyn yn ei erbyn. Fe gyfeirir at yr unigolyn hwn fel 'yr atebydd' ym mhapurau'r llys neu mewn unrhyw wrandawiad llys. Fe'ch gelwir chi yn 'ceisydd'.

**4.1** Eu henw

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

**4.2** Unrhyw enwau eraill y mae'r atebydd wedi cael ei adnabod wrthynt

**4.3** Ydych chi'n gwybod beth yw eu dyddiad geni?

☐ Ydw. Eu dyddiad geni yw

Diwrnod Mis Blwyddyn

☐ Nac ydw

**4.4** A yw'r atebydd yn byw gyda chi?

☐ Ydy

☐ Nac ydy

**4.5** Eu cyfeiriad cyfredol

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**Nodyn 4.5:** Rhaid nodi cyfeiriad yr atebydd er mwyn gallu cyflwyno unrhyw orchymyn 'yn bersonol' iddynt. Gan amlaf fe roddir y gorchymyn yn uniongyrchol i'r atebydd. Gweler tudalen 3 y ffurflen hon am ragor o wybodaeth a chyfarwyddyd.
Os nad ydych chi'n gwybod eu cyfeiriad, dylech gynnwys cyfeiriad arall, megis cyfeiriad aelod o deulu'r atebydd neu weithle lle'r ydych chi'n gwybod y maent yn debygol o fod. Mae'n hynod o bwysig eich bod chi'n cynnwys cyfeiriad ar gyfer yr atebodd oherwydd ni ellir gorfodi'r gorchymyn hyd nes y bydd wedi'i gyflwyno arnynt neu maent yn ymwybodol ohono. Mae hyn yn golygu efallai na fydd y llys yn gallu cymryd camau gweithredu os bydd yr atebydd yn gwneud rhywbeth y mae'r gorchymyn yn nodi na ddylai wneud.

**4.6** Eu rhif ffôn (os ydych chi'n ei wybod)

**4.7** Eu cyfeiriad e-bost (os ydych chi'n ei wybod)

**4.8** Rhowch yr wybodaeth ganlynol, os ydych chi'n ei gwybod-

(a) beth yw oriau gwaith a lleoliad gwaith yr atebydd?

(b) beth yw oriau mynychu a lleoliad sefydliad addysgol yr atebydd?

(c) manylion ymrwymiadau crefyddol yr atebydd.

**Os nad yw'r manylion hyn gennych, ewch i'r adran nesaf**

**Nodyn 4.8:** Pan fydd y llys yn ystyried gwneud DAPO, efallai y bydd angen iddo gymryd i ystyriaeth amser a lleoliad gwaith yr atebydd, oriau a lleoliad sefydliad addysgol yr atebydd neu ei ymrwymiadau crefyddol. Peidiwch â phoeni os nad yw'r wybodaeth hon gennych.

# 5. Eich perthynas â'r atebydd

**5.1** Os yw'r math o berthynas sydd gennych gyda'r atebydd yn un o'r canlynol, dewiswch yr un sy'n disgrifio eich perthynas orau.

- ☐ Wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil
- ☐ Arfer bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- ☐ Wedi dyweddïo neu'n bwriadu ymrwymo i bartneriaeth sifil
- ☐ Arfer bod wedi dyweddïo neu'n bwriadu ymrwymo i bartneriaeth sifil
- ☐ Cariad neu cyn-gariad, partner neu cyn-bartner neu math arall o berthynas personol
- ☐ Mae'r ddau ohonoch yn rhieni i'r un plentyn, neu wedi bod.
- ☐ Dim un o'r uchod. **Ewch i gwestiwn 5.4**

**5.2** Pryd ddechreuodd eich perthynas a phryd daeth i ben?

Dechrau

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

Gorffen (os yw'n berthnasol)

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

**5.3** Os ydych chi wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil neu os oeddech yn arfer bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil â'r atebydd, beth oedd dyddiad eich priodas neu bartneriaeth sifil?

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

**Nodyn 5:** I gael gorchymyn diogelu rhag cam-drin domestig yn erbyn yr atebydd, bydd angen i chi ddangos i'r llys bod gennych gysylltiad â nhw.

Mae'r llysoedd yn galw hyn yn 'unigolyn cysylltiedig'.

Fe ddefnyddir y cwestiynau yn yr adran hon i benderfynu a ydych chi'n gysylltiedig â'r atebydd er pwrpas y cais hwn.

Mae bod yn rhieni plentyn yn cynnwys bod â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn – gweler Nodyn 6.2 neu chwiliwch am esboniad ar GOV.UK beth mae hyn yn ei olygu.

Os ydych chi'n cwblhau'r cais hwn ar ran rhywun arall, atebwch gweddill y cwestiynau yn y ffurflen hon fel petai chi yw'r unigolyn sydd i'w ddiogelu.

**Nodyn 5.2:** Os nad ydych chi'n gwybod union ddyddiad dechrau a gorffen eich perthynas, dyfalwch cystal ag y gallwch beth oedd y mis a'r flwyddyn.

**5.4** Sut fath o berthynas sydd gennych chi â'r atebydd (os nad ydych wedi nodi hyn yng **nghwestiwn 5.1**)?

Yr atebydd yw fy

☐ Nhad ☐ Mam ☐ Mab ☐ Merch

☐ Brawd ☐ Chwaer ☐ Taid ☐ Nain

☐ Ewythr ☐ Modryb ☐ Nai ☐ Nith

☐ Cefnder neu gyfnither

☐ Arall - rhowch fanylion

**Nodyn 5.4:** Os yw'r atebydd yn perthyn i chi drwy waed, yna ticiwch y blwch priodol.

Os yw'r atebydd yn perthyn i chi drwy briodas neu mewn rhyw ffordd arall, ticiwch arall a rhowch y manylion.

Mae hyn yn cynnwys eich rhieni-yng-nghyfraith neu lys berthnasau chi neu rai eich partner.

Rhaid i'r atebydd fod, neu wedi bod, yn rhywun a restrir yng nghwestiwn 5.1, neu'n perthyn â chi drwy waed, priodas neu mewn rhyw ffordd arall.

Os nad ydynt, yna ni allwch wneud cais am orchymyn diogelu rhag cam-drin domestig a dylech gael cyngor cyfreithiol.

**5.5** A oes yna unrhyw achos llys yn mynd rhagddo yn ymwneud â'r ddau ohonoch?

☐ Oes

☐ Nac oes. **Ewch i gwestiwn 5.7.**

**Nodyn 5.5:** Er enghraifft, achos am drefniadau plant neu achos lle mae'r atebydd wedi gwneud cais am waharddeb yn eich erbyn. Gall hyn hefyd gynnwys achosion ysgariad neu achosion a wrandewir yn y llysoedd troseddol.

**5.6** Rhowch fanylion yr achosion llys

| Enw'r llys | Rhif yr achos | Math o achos ac unrhyw fanylion eraill |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

**5.7** A yw ymddygiad yr atebydd yn effeithio ar unrhyw blant rydych eisiau dweud wrth y llys amdanynt?

☐ Ydy. **Ewch i adran 6 – Eich teulu.**

☐ Nac ydy. **Ewch i adran 7 – Ymddygiad yr atebydd.**

# 6. Eich teulu

**6.1** Pwy y mae ymddygiad yr atebydd yn ei effeithio?

- [ ] Chi yn unig. **Ewch ymlaen i Adran 7.**
- [ ] Chi a'ch plentyn/plant

**6.2** Manylion y plentyn neu'r plant sy'n cael eu heffeithio gan ymddygiad yr atebydd:

**1.** Enw llawn y plentyn

Dyddiad geni'r plentyn

Diwrnod Mis Blwyddyn

Eich perthynas â'r plentyn

Perthynas yr atebydd â'r plentyn

A oes gennych chi a'r atebydd gyfrifoldeb rhiant am y plentyn hwn?

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes

**Nodyn 6.2:** Dylech ddweud wrth y llys os yw'r gamdriniaeth ddomestig yn effeithio ar unrhyw blant, gan gynnwys os ydynt yn gweld neu'n clywed camdriniaeth. Os ydych angen diogelu eich plant yn uniongyrchol, er enghraifft i atal yr atebydd rhag cysylltu â nhw, byddwch angen gorchymyn llys gwahanol.

Efallai y bydd arnoch angen cael cyngor cyfreithiol ynghylch diogelu eich plant yn uniongyrchol. Mae cyfrifoldeb rhiant yn golygu'r holl gyfrifoldebau a'r hawliau sydd gan riant tuag at eu plentyn. Mae gan fam gyfrifoldeb rhiant am ei phlentyn yn awtomatig o adeg geni'r plentyn. Gan amlaf mae gan dad gyfrifoldeb rhiant os yw naill ai'n briod â mam y plentyn neu os yw wedi'i enwi ar y dystysgrif geni.

I gael mwy o wybodaeth ewch i www.gov.uk/parental-rights-responsibilities

Os nad oes gennych chi neu'r atebydd berthynas â'r plentyn, dywedwch sut rydych chi'n ei adnabod.

**2.** Enw llawn y plentyn

Dyddiad geni'r plentyn
Diwrnod Mis Blwyddyn

Eich perthynas â'r plentyn

Os nad oes gennych chi neu'r atebydd berthynas â'r plentyn, dywedwch sut rydych chi'n ei adnabod.

Perthynas yr atebydd â'r plentyn

A oes gennych chi a'r atebydd gyfrifoldeb rhiant am y plentyn hwn?

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes

**3.** Enw llawn y plentyn

Dyddiad geni'r plentyn
Diwrnod Mis Blwyddyn

Eich perthynas â'r plentyn

Os nad oes gennych chi neu'r atebydd berthynas â'r plentyn, dywedwch sut rydych chi'n ei adnabod.

Perthynas yr atebydd â'r plentyn

A oes gennych chi a'r atebydd gyfrifoldeb rhiant am y plentyn hwn?

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes

**4.** Enw llawn y plentyn

Dyddiad geni'r plentyn
Diwrnod Mis Blwyddyn

Eich perthynas â'r plentyn

Perthynas yr atebydd â'r plentyn

Os nad oes gennych chi neu'r atebydd berthynas â'r plentyn, dywedwch sut rydych chi'n ei adnabod.

A oes gennych chi a'r atebydd gyfrifoldeb rhiant am y plentyn hwn?

☐ Oes

☐ Nac oes

**5.** Enw llawn y plentyn

Dyddiad geni'r plentyn
Diwrnod Mis Blwyddyn

Eich perthynas â'r plentyn

Perthynas yr atebydd â'r plentyn

Os nad oes gennych chi neu'r atebydd berthynas â'r plentyn, dywedwch sut rydych chi'n ei adnabod.

A oes gennych chi a'r atebydd gyfrifoldeb rhiant am y plentyn hwn?

☐ Oes

☐ Nac oes

**6.3** Dywedwch wrthym sut mae unrhyw blant yn cael eu heffeithio gan ymddygiad yr atebydd

# 7. Ymddygiad yr atebydd

**7.1** Beth hoffech i'r llys ei orchymyn?

- ☐ Bod yr atebydd yn stopio gwneud rhywbeth. **Ewch i gwestiwn 7.2.**
- ☐ Bod yr atebydd yn gwneud rhywbeth penodol. **Ewch i gwestiwn 7.3.**
- ☐ Bod yr atebydd yn gwisgo tag electronig. **Ewch i gwestiwn 7.4.**
- ☐ Pwy all aros yn eich cartref neu ddychwelyd iddo. **Ewch ymlaen i Adran 8.**

**7.2** Beth ydych chi eisiau atal yr atebydd rhag gwneud?

- ☐ Bod yn dreisgar tuag ataf, fy ngham-drin yn rhywiol neu fy mygwth
- ☐ Fy mhoeni neu fy nychryn
- ☐ Fy rheoli neu fy ngorfodi
- ☐ Defnyddio neu ddylanwadu ar y plant i fy ngham-drin neu fy rheoli
- ☐ Fy ngham-drin yn economaidd neu'n ariannol
- ☐ Cam-drin ar-lein megis postio neu gyhoeddi gwybodaeth amdanaf naill ai ar bapur neu'n ddigidol
- ☐ Fy ngham-drin yn seicolegol neu'n emosiynol
- ☐ Cysylltu â mi'n uniongyrchol neu drwy rhywun arall
- ☐ Cysylltu â fy nghyflogwr neu fy lleoliad gwaith
- ☐ Achosi difrod i fy eiddo
- ☐ Achosi difrod i fy nghartref
- ☐ Dod i mewn i fy nghartref
- ☐ Dod yn agos at fy nghartref
- ☐ Dod yn agos at fy lleoliad gwaith neu ysgol neu feithrinfa fy mhlant
- ☐ Math arall o gamdriniaeth. **Ewch i gwestiwn 7.5.**

**Nodyn 7:** Bwriad yr adran hon yw cael crynodeb o'r math o ymddygiad rydych eisiau atal yr atebydd rhag gwneud. Gall hyn gynnwys camdriniaeth sydd wedi parhau ar ôl i'r berthynas ddod i ben.

**Nodyn 7.2:** Cewch ddewis mwy nag un opsiwn. Gallai cam-drin economaidd neu ariannol gynnwys eich atal rhag gweithio neu rwystro mynediad i gyfrif banc.

Rheolaeth drwy orfodaeth yw ymddygiad a allai fod yn fychanol, yn ynysig neu'n rheolaethol ac sy'n gwneud i chi deimlo fel nad oes gennych ryddid neu annibyniaeth. Gall cam-drin ar-lein fod yn: anfon negeseuon testun neu negeseuon e-bost bygythiol atoch; rheoli mynediad i'ch ffôn, cyfrif e-bost neu fynd ar-lein; rhyng-gipio eich negeseuon e-bost neu negeseuon testun.

Ewch i GOV.UK a chwiliwch am 'domestic abuse: recognise the signs' am enghreifftiau o wahanol fathau o gam-drin domestig.

**7.3** A oes yna rywbeth penodol rydych eisiau i’r atebydd ei wneud?

☐ Dylai’r atebydd fynychu rhaglen newid ymddygiad

☐ Dylai’r atebydd fynychu rhaglen i’w helpu gyda’i ddibyniaeth neu ei iechyd meddwl

☐ Rhywbeth arall - defnyddiwch y gwagle isod i egluro

**Nodyn 7.3:** Bwriad y cwestiwn hwn yw helpu’r llys i ystyried a fyddai’n ddefnyddiol gorchymyn bod yr atebydd yn mynychu cwrs neu raglen. Gall hyn gynnwys rhaglen i helpu’r atebydd gyda’i ddibyniaeth neu sut mae yn ymddwyn mewn perthynas bersonol.

**7.4.** Ydych chi eisiau i’r atebydd wisgo tag electronig i fonitro ei symudiadau?

☐ Ydw. Rwy’n credu y dylai wisgo tag electronig oherwydd:

☐ Nac ydw

**Nodyn 7.4:** gall y llys orchymyn bod yr atebydd yn cael ei fonitro’n electronig. Mae hyn yn golygu y byddai’r atebydd yn gwisgo tag. Gall y llys orchymyn hyn pan fydd yn angenrheidiol i sicrhau bod yr atebydd yn cydymffurfio â’r gorchymyn, yn enwedig os nad yw i fod i fynd i ardal cau allan o amgylch eich cartref (tag GPS) neu dylai aros yn ei gartref ei hun yn ystod oriau penodol (tag cyrffyw).

**7.5** A oes yna unrhyw beth arall rydych eisiau gofyn i'r atebydd ei wneud neu stopio gwneud nad ydych wedi dweud wrthym amdano yn barod yn yr adran hon?

☐ Oes. Rhowch fanylion pellach yn y blwch isod.

☐ Nac oes

# 8. Eich cartref

**Nodyn 8:** Cwblhewch yr adran hon dim ond os ydych chi'n gofyn i'r llys wneud gorchymyn sy'n ymwneud ag eiddo, er enghraifft pan fydd llys yn penderfynu pwy sy'n cael byw neu aros mewn eiddo, neu pwy ddylid ei atal rhag byw neu aros yno.

Os nad ydych chi'n gwneud cais am rywbeth sy'n ymwneud ag eiddo, ewch i'r adran nesaf, 'Mynd i'r llys' (Adran 9)

**8.1** Ydych chi'n gofyn i'r llys wneud gorchymyn sy'n cynnwys eiddo?

☐ Ydw

☐ Nac ydw. **Ewch i adran 9.**

**8.2** Ar gyfer pa gyfeiriad ydych chi eisiau i'r gorchymyn fod yn berthnasol?

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**8.3** Pwy sy'n byw yn y cyfeiriad hwn ar hyn o bryd?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

☐ Fi

☐ Yr atebydd

☐ Perthnasau'r atebydd

☐ Fy mhlentyn neu fy mhlant

☐ Rhywun arall - dywedwch wrthym pwy ydynt a beth maent yn ei feddwl amdanoch chi'n gwneud cais am y gorchymyn hwn.

**Nodyn 8.3:** Os ydych chi'n dewis 'rhywun arall', rhowch eu henw a dywedwch pam eu bod yn byw yno. Er enghraifft, maent yn perthyn i chi.

Dim ond os ydynt yn byw yno ac maent yn gysylltiedig â chi neu'r atebydd, os yw'r atebydd hefyd yn byw yno y mae angen i chi ddweud wrthym am farn rhywun arall. Er enghraifft, gallai fod os yw mam yr atebydd hefyd yn byw yno gyda'r ddau ohonoch. Gweler Adran 5 am bwy y gellir eu hystyried fel bod yn gysylltiedig â'i gilydd er pwrpas gwneud gorchymyn llys.

**8.4** Os nad ydych chi'n byw yno ar hyn o bryd, ydych chi'n bwriadu dychwelyd yno?

☐ Ydw

☐ Nac ydw. **Ewch i gwestiwn 8.6.**

**8.5** Pwy sy'n byw ar hyn o bryd yn y cyfeiriad rydych chi'n dymuno dychwelyd iddo?

☐ Yr atebydd

☐ Perthnasau'r atebydd, rhowch fanylion

☐ Plant - **Ewch i gwestiwn 8.6.**

☐ Arall - rhowch fanylion

**8.6** Os oes unrhyw blant yn byw yn y cyfeiriad, rhowch eu henw(au) a'u hoedran.

Peidiwch ag ateb y cwestiwn hwn os ydych chi eisiau cadw manylion eich plentyn neu blant yn gyfrinachol rhag yr atebydd. Gweler y nodiadau ar dudalen 2 am fwy o wybodaeth a chyfarwyddiadau.

a) Unrhyw blant rydych chi a'r atebydd yn rhieni iddynt neu'n gyfrifol amdanynt:

| Enw'r plentyn | Oed y plentyn |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| | |

b) Plant eraill rydych chi'n rhiant iddynt neu'n gyfrifol amdanynt ond nad yw'r atebydd:

Peidiwch ag ateb y cwestiwn hwn os ydych chi eisiau cadw manylion eich plentyn neu blant yn gyfrinachol rhag yr atebydd. Gweler y nodiadau ar y dudalen 2 am fwy o wybodaeth a chyfarwyddiadau.

| Enw'r plentyn | Oed y plentyn |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**8.7** A yw'r cartref wedi cael ei addasu'n arbennig mewn unrhyw ffordd ar eich cyfer chi, eich plant neu unrhyw un arall sy'n byw yno?

☐ Ydy. Mae'r eiddo wedi cael ei addasu'n arbennig yn y ffordd ganlynol:

| |
|---|
| |

☐ Nac ydy

**Nodyn 8.7:** Er enghraifft, newidiadau a wnaed i'r adeilad i gefnogi rhywun sydd ag anabledd corfforol neu gyflwr iechyd meddwl.

**8.8** A oes yna forgais ar yr eiddo?

☐ Oes

☐ Nac oes. **Ewch i gwestiwn 8.12.**

**Nodyn 8.8:** Peidiwch â dewis 'Oes' os mai eich landlord sydd â morgais ar yr adeilad. Gweler cwestiwn 8.14 am wybodaeth am y landlord.

**8.9** Pwy sydd wedi'i enwi ar y morgais? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

☐ Fi

☐ Yr atebydd

**Nodyn 8.9:** Os ydych chi'n dewis 'rhywun arall', rhowch eu henw a'u perthynas â chi a'r/neu'r atebydd.

☐ Rhywun arall - rhowch fanylion

**8.10** Nodwch rif eich morgais, os ydych chi'n ei wybod

**8.11** Beth yw enw a chyfeiriad y benthyciwr morgais?

Enw

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**8.12** A ydych chi'n rhentu'r eiddo?

☐ Ydw

☐ Nac ydw. **Ewch i gwestiwn 8.15.**

**Nodyn 8.11:** Gan amlaf banc, cymdeithas adeiladu neu gymdeithas cynilion a benthyciadau yw'r benthyciwr morgais.

**Mae'n rhaid i chi gyflwyno'r cais i'ch cwmni morgais neu'ch landlord.**
Os nad oes gennych chi gynrychiolydd cyfreithiol, yna ni ddylech gyflwyno'r cais eich hun. Bydd y llys yn gwneud hyn ar eich rhan. Bydd cyfle ganddynt i ddarparu gwybodaeth i'r llys am y morgais neu'r denantiaeth.

**8.13** Pwy sydd wedi'i enwi ar y cytundeb rhentu? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

☐ Fi

☐ Yr atebydd

☐ Rhywun arall - rhowch fanylion

**Nodyn 8.13:** Os ydych chi'n dewis rhywun arall, rhowch eu henw a'u perthynas â chi a'r/neu'r atebydd.

**8.14** Beth yw enw a chyfeiriad y landlord?

Enw

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**8.15** Pwy sydd berchen yr eiddo?

☐ Fi

☐ Yr atebydd

☐ Rhywun arall - rhowch fanylion

**Nodyn 8.15:** Atebwch y cwestiwn hwn os ydych wedi dweud nad oes morgais ar yr eiddo ac nid yw'n cael ei rentu. Gall hyn fod oherwydd bod y morgais wedi'i dalu neu oherwydd bod yr eiddo wedi'i etifeddu.

**8.16** Beth yn union ydych chi eisiau gweld yn digwydd gyda'ch sefyllfa byw?

- ☐ Rwyf eisiau gallu aros yn fy nghartref
- ☐ Rwyf eisiau gallu dychwelyd i fy nghartref
- ☐ Nid wyf eisiau i'r atebydd allu dod i mewn i fy nghartref
- ☐ Rwyf eisiau cadw'r atebydd i ffwrdd o'r ardal sy'n amgylchynu fy nghartref
- ☐ Rwyf eisiau gosod cyfyngiadau ar ble all yr atebydd fynd yn y cartref

**Nodyn 8.16:** Mae yna nifer o opsiynau ar gael i chi pan fyddwch yn gofyn i'r llys wneud gorchymyn ynghylch eich cartref, er enghraifft, bod yr atebydd yn gadael yr eiddo yn gyfan gwbl, neu gyfyngu ar y rhannau o'r cartref y gallant fyw ynddo, er enghraifft, ni allant fynd i mewn i ystafell benodol, megis ystafell wely.

**8.17** A oes yna unrhyw beth arall yr hoffech i'r llys ei ystyried?

| |
|---|
| |

**Nodyn 8.17:** Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ble byddwch chi a'ch plant yn gallu byw os na fyddwch yn gallu aros yn eich cartref neu ddychwelyd i fyw yno.

Dylech hefyd gynnwys manylion unrhyw galedi y gallech wynebu os na allwch aros yn eich cartref neu ddychwelyd i fyw yno. Er enghraifft, efallai ni fyddwch yn gallu mynychu eich lleoliad gwaith neu efallai ni fydd eich plentyn yn gallu mynychu ei ysgol neu feithrinfa.

Os gallwch hefyd ddangos bod modd i'r atebydd fyw'n rhywle arall ac nad yw'n gwbl ddibynnol ar y cartref, gallai hyn gefnogi eich cais.

# 9. Mynd i'r llys

**9.1** Ydych chi angen cyfieithydd yn y llys?

☐ Ydw

☐ Nac ydw. **Ewch i gwestiwn 9.3.**

**9.2** Dywedwch wrthym ba iaith a/neu dafodiaith.

Iaith

Tafodiaith

**9.3** A oes angen i ni ddarparu rhywbeth gwahanol i chi yn y llys neu pan fyddwn yn cysylltu â chi, oherwydd anabledd?

☐ Oes

☐ Nac oes

**9.4** Eglurwch sut mae eich anabledd yn eich effeithio, gan roi cymaint o wybodaeth ag y gallwch.

**9.5** Gallwn roi mesurau arbennig mewn lle i'ch cadw chi ar wahân i'r atebydd pan fyddwch yn mynychu'r llys. Dewiswch unrhyw un o'r mesurau canlynol yr hoffech wneud cais amdanynt.

☐ ystafell aros ar wahân yn yr adeilad llys

☐ mynedfa ac allanfa ar wahân o adeilad y llys

☐ cael eich cuddio gan sgrin breifatrwydd yn ystafell y llys

☐ ymuno â'r gwrandawiad drwy gyswllt fideo yn hytrach na bod yno'n bersonol

**Nodyn 9:** Bydd y llys yn ceisio darparu'r cymorth arbennig rydych chi'n gofyn amdano, ond nid yw hyn wastad yn bosibl a gall ddibynnu ar y cyfleusterau sydd ar gael yn eich llys lleol.

**Mae'n syniad da i gysylltu â'r llys cyn eich gwrandawiad llys i ganfod p'un a allant ddarparu'r cymorth arbennig rydych wedi gofyn amdano.**

Os ydych chi'n gwneud cais ar ran rhywun arall, nodwch os byddwch angen unrhyw gymorth arbennig eich hun.

**Nodyn 9.3:** Gwyddwn y bydd pobl sydd ag anableddau weithiau angen ein cymorth a'n cefnogaeth i ddefnyddio ein gwasanaethau. Gall hyn olygu bod arnom angen darparu rhywbeth gwahanol i chi allu cael mynediad at ein gwasanaethau yn yr un ffordd ag unigolyn heb anabledd.

Bydd egluro sut y mae eich anabledd yn eich effeithio yn helpu staff y llys neu'r barnwr i ystyried unrhyw gymorth y gallwn ni ei ddarparu.

**Nodyn 9.5:** Byddai sgrin breifatrwydd yn golygu na fyddai'r atebydd yn gallu eich gweld tra byddech yn yr ystafell llys.

**Sgriniau preifatrwydd a chyswllt fideo:**
Penderfyniad y barnwr yw p'un a ddylid caniatáu sgrin breifatrwydd neu wrandawiad drwy gyswllt fideo ai peidio.

## Cymorth gyda chroesholi

Mae darpariaethau yn adran 65 Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn atal unigolyn sydd wedi ei gyhuddo o gam-drin rhag holi yn bersonol barti neu dyst yn yr achos sydd wedi dioddef y gamdriniaeth, ac mae hefyd yn atal dioddefwr camdriniaeth rhag holi yn bersonol yr unigolyn a gyhuddir mewn amgylchiadau penodol.

Os yw'r llys yn gorchymyn bod yr achos yn cael ei restru ar gyfer gwrandawiad lle y gellir rhoi tystiolaeth lafar, efallai y bydd angen llenwi ffurflen **EX740** (unigolyn sy'n gwneud y cyhuddiad o gam-drin) neu ffurflen **EX741** (unigolyn a gyhuddwyd o gam-drin) 'Cais a gwybodaeth sydd ei angen gan y llys i ystyried a ddylid atal (gwahardd) holi (croesholi) yn bersonol' fel y gall y llys ystyried a ddylid atal holi wyneb yn wyneb. Bydd y llys yn anfon y ffurflen briodol gyda'r gorchymyn llys.

# Datganiad gwirionedd

**Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.**

☐ **Rwy'n credu** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac ar unrhyw ddalennau parhau, yn wir.

☐ **Mae'r ceisydd** yn credu fod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac unrhyw ddalennau parhau, yn wir. **Rwyf wedi cael fy awdurdodi** gan y ceisydd i lofnodi'r datganiad hwn.

**Llofnod**

☐ Ceisydd

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol y ceisydd

**Dyddiad**

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw llawn

Enw cwmni cynrychiolydd cyfreithiol y ceisydd

Os ydych chi'n llofnodi ar ran cwmni, nodwch y swydd a ddelir

Gallwch lofnodi'r cais â llaw neu gallwch deipio eich enw os ydych chi'n gwneud cais yn electronig.

**Rhaid cyflwyno'r cais hwn ar yr atebydd.**

Ni ddylech gyflwyno'r dogfennau ar yr unigolyn rydych chi'n gwneud cais i gael gorchymyn yn ei erbyn eich hun. Gweler tudalen 3 y ffurflen hon am fwy o wybodaeth a chyfarwyddiadau ynghylch cyflwyno'r dogfennau.

## Beth i'w wneud nesaf

**Bydd angen i chi gynnwys datganiad tyst gyda'ch cais.** Gallwch ddod o hyd i dempled ar gyfer y datganiad a chyfarwyddyd ar sut i'w lenwi ochr yn ochr â'r ffurflen hon. Ewch i www.gov.uk/guidance/apply-for-a-domestic-abuse-protection-order-in-a-family-court.cy.

Os ydych wedi llenwi eich ffurflen a'r datganiad yn electronig, dylech eu hanfon drwy e-bost gydag unrhyw ddogfennau ategol i'ch llys teulu lleol (Mae'n rhaid i chi wirio yn gyntaf a yw eich llys lleol yn derbyn ceisiadau DAPO – www.gov.uk/guidance/apply-for-a-domestic-abuse-protection-order-in-a-family-court.cy). Os ydych chi'n gofyn i'r llys gadw eich manylion cyswllt yn gyfrinachol, atodwch ffurflen **C8 – Manylion cyswllt cyfrinachol** fel atodiad ar wahân.

Os ydych wedi llenwi'r ffurflen a'r datganiad â llaw, byddwn angen 3 chopi o'ch ffurflen gais neu 4 copi os ydych chi'n gofyn i'r llys wneud gorchymyn sy'n ymwneud ag eiddo. Os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol (cyfreithiwr) yna gallwch ofyn iddyn nhw wneud copïau ar eich rhan.
Os nad oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, darparwch un copi yn unig o bob dogfen.

Gallwch fynd â'ch cais i'r llys teulu sy'n derbyn ceisiadau DAPO neu anfonwch ef yno drwy'r post.

## Hysbysu'r atebydd am y cais a'r gorchymyn

Ar ôl i'ch cais gyrraedd y llys ac ar ôl i'r llys ei dderbyn, rhaid wedyn rhoi copi ohono i'r atebydd. Gelwir hyn yn 'cyflwyno'r cais'. Fodd bynnag, os yw'r llys wedi cytuno i wrando eich cais heb hysbysu'r atebydd amdano, ni ddylid cyflwyno'r cais iddynt. Os bydd y llys yn caniatáu gorchymyn, rhaid ei gyflwyno i'r atebydd ymhob achos.

**Ni ddylech gyflwyno'r cais neu'r gorchymyn eich hun.** Os nad oes gennych chi gynrychiolydd cyfreithiol, gall swyddog y llys gyflwyno'r rhain i chi am ddim ond mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen **'D89 – Cais i feili'r llys gyflwyno dogfennau yn bersonol'** fel gall y llys adnabod a dod o hyd i'r atebydd. Ewch i GOV.UK a chwiliwch am ffurflen **'D89'** i lenwi'r ffurflen hon. Dylech gynnwys y ffurflen hon gyda'ch cais.